**Rhif: 3**

| | |
| --- | --- |
| **Cais Rhif:** | **C25/0706/11/CR** |
| **Dyddiad Cofrestru:** | **07/10/2025** |
| **Math y Cais:** | **Adeilad Rhestredig** |
| **Cymuned:** | **Bangor** |
| **Ward:** | **Glyder** |
| **Bwriad:** | **Dymchwel estyniadau cefn a chodi estyniad deulawr newydd ag addasiadau mewnol i'r prif adeilad** |
| **Lleoliad:** | **Coleg Menai, Adeilad Friars, Coleg Menai Ffordd Ffridd-oedd, Bangor, Gwynedd, LL57 2TS** |
| **Crynodeb o'r Argymhelliad:** | **CANIATÁU GYDAG AMODAU** |

**1. Disgrifiad:**

1.1 Cais adeilad rhestredig i ddymchwel estyniadau cefn a chodi estyniad deulawr newydd ynghyd ag addasiadau mewnol i'r prif adeilad.

1.2 Mae'r prif adeilad, sef yr adeilad sydd yn weladwy o'r ffordd yn un trawiadol iawn deulawr allan o garreg gyda ffenestri carreg ac wedi ei godi oddeutu 1899. Mae'r adeilad yma wedi disodli ysgol cynt ar safleoedd eraill o fewn y Ddinas, gyda'r safle gwreiddiol ar safle mynachlog, sef cefndir enw'r ysgol, "Friars" a adnabyddir heddiw. Mae tystiolaeth yn bodoli yn dangos fod yr ysgol wedi esblygu a datblygu dros amser, ac erbyn y 1940au hwn yw'r adeilad sydd yn bodoli eisoes. Mae dau adeilad ar wahân arall yn ffurfio rhan o'r safle, ond nid yw'r rhain yn ffurfio rhan o'r cais hwn.

1.3 Roedd y safle yn dal mewn defnydd fel ysgol tan 1999 hyd nes ail-leoli'r ysgol i safle newydd, ac fe symudodd Coleg Menai i'r safle tan Fawrth 2025 ac yna fe safwyd y safle yn wag. Mae'r Brifysgol wedi prynu'r safle er mwyn ail-leoli'r Ysgol Fusnes, ac mae'r tir i'r Gogledd a'r Dwyrain o'r safle yn rhan o gampws y Brifysgol eisoes.

1.4 Mae'r bwriad yn golygu dymchwel y rhan deulawr cefn, y rhan 1930au a chodi estyniad deulawr newydd modern er galluogi cael ystafelloedd dysgu i fyny at safonau modern. Bwriedir lleoli'r estyniad ar yr un ôl-troed a'r rhan sydd i'w ddymchwel ond yn hytrach na mewn siâp croes y byddai yn siâp mwy sgwâr ac yn mesur oddeutu 28m wrth 26m gydag uchder o 12.5m.

1.5 Byddai'r estyniad yn gymysg o bric llwyd golau / coch a chladin alwminiwm coch. Bydd yr edrychiad blaen, sef yr edrychiad deheuol yn wynebu Ffordd Ffriddoedd yn parhau fel y mae, gan mai hwn yw'r darn gwreiddiol ac ni fwriedir unrhyw newid yma. Ar yr ochr orllewinol ar y prif adeilad, bwriedir tynnu'r porth ceir presennol ynghyd a thynnu offer peirianyddol awyru oddi ar y to a gosod fentiau newydd. Byddai'r estyniad newydd yn cysylltu â'r prif adeilad ac o ddyluniad modern efo dau do brig a fyddai'n adlewyrchu'r brig o'r prif adeilad a byddai'r rhan isod allan o fric goch a chladin zinc coch ar y lefel uwch. Bydd paenau gwydr hyd at lefel uchel yn cysylltu'r estyniad a'r prif adeilad, a phaenau gwydr hir ar ganol a phen yr estyniad.

1.6 Ar yr edrychiad cefn (gogleddol) bydd rhan helaeth o'r prif adeilad dal yn weladwy ynghyd â'r darn modern newydd. Byddai'r rhan yma o'r estyniad yn mesur oddeutu 26m gyda 12.5m o uchder, ac eto bydd y deunyddiau yn gyfuniad o fric goch a chladin alwminiwm coch. Bydd rhannau o'r to yn fflat (er mwyn lleoli'r offer awyru a mecanwaith) ac y byddai rhannau eraill gyda tho crib. Bwriedir cael paenau gwydr ar hyd hanner yr edrychiad cefn ar lefel isel, gyda 5 ar y llawr cyntaf a 3 ffenestr o fewn y to. Byddai nwyddau dŵr glaw wedi gweithredu o fewn y dyluniad i'w orchuddio ond efo sawl peipen dŵr glaw yn rhedeg lawr y cefn.

1.7 Ar yr ochr ddwyreiniol (yn wynebu Neuadd Reichel) byddai'r estyniad eto yn adlewyrchu'r prif adeilad efo rhannau to brig ond hefyd bwriedir gosod esgyll (fins) a fydd yn adlewyrchu'r to brig ond fydd yn gorchuddio'r offer mecanwaith unwaith eto. Bwriedir gosod paneli solar ar yr estyniad newydd mewn mannau cuddiedig.

1.8 Yn fewnol o fewn y prif adeilad ar y llawr cyntaf, mae'r addasiadau yn golygu tynnu llawer o waith modern sydd wedi ychwanegu dros amser. Wrth gerdded i mewn i'r adeilad drwy'r brif fynedfa mae'r cyntedd a bwriedir creu agoriad newydd i'r storfa drws nesaf a chau agoriad presennol. O fewn y cyntedd wedyn mae drysau dwbl yn arwain i'r chwith i mewn i'r cyntaf o ystafelloedd mawr hir, yn cyd-fynd ag ystafell debyg ar ochr arall yr adeilad. Bwriedir tynnu gwaith anaddas sydd wedi gwneud i'r adeilad yn y gorffennol, yn cynnwys tynnu'r nenfwd ffug,

gwaith atgyweirio’r ffenestri ynghyd â gwaith i dynnu plaster modern oddi ar y waliau. Mae sawl drws gwreiddiol hefyd dal yn bodoli a bwriedir cadw ac ail-ddefnyddio'r rhain. Yn arwain allan o’r rhan yma tuag at gefn y safle ble mae’r rhan sydd i’w ddymchwel mae coridor hir yn cysylltu â’r hen gegin sydd i’w throsi yn ddwy swyddfa drwy osod wal rhaniad newydd, ac y byddai hwn yn arwain yn syth i mewn i’r estyniad newydd, i’r cyntedd. Yn y rhan pen o’r prif adeilad ble mae tŷ'r prifathro mae un ystafell weddol fawr yn gwahanu’r ystafell hir, a bwriedir tynnu’r wal hon i lawr ond cadw’r rhannau bach o’r wal ar y ddwy ochr. Mae gweddill y tŷ prifathro yn parhau fel y mae fel cymysg o ystafelloedd dysgu a swyddfeydd. Bwriedir creu un agoriad newydd allan o gefn y rhan yma er mwyn cael drws allanfa newydd ble nad oes agoriad presennol, ond bwriedir ail-ddefnyddio’r drws o’r estyniad sydd i’w ddymchwel yma.

1.9 O fewn yr estyniad newydd byddai dwy neuadd ddarlithio fawr, ystafell ddysgu cyffredinol, toiledau ac ardaloedd eistedd ynghyd â’r coridorau, grisiau a drysau allanol. Bwriedir gosod lifft newydd yma hefyd. Ar yr ail lawr o’r estyniad byddai’r gofod o’r ddwy neuadd ddarlithio ynghyd ag ardaloedd eistedd, toiledau, ystafelloedd offer a storfeydd. Bydd hwn wedyn yn cysylltu yn ôl gyda’r prif adeilad, i lawr y coridor presennol heibio swyddfa fawr sydd yn bresennol yn gegin. Byddai’r llawr cyntaf ar y prif adeilad yn parhau yn bennaf fel y mae ond gyda mân addasiadau drwy dynnu rhai waliau rhaniadau mewnol a chodi rhai eraill. Ar y prif gyntedd ble mae’r prif risiau, mae hwn yn bresennol i gyd yn agored a bwriedir gosod sgrin yma o ran materion diogelwch tân. Bwriedir gosod yr un math o sgrin ar yr ail risiau o fewn y tŷ prifathro. Nid oes unrhyw waith a fwriedir yn ffurfio rhan o’r ail-lawr.

1.10 Mae’r bwriad yn golygu elfen o ail-ddefnyddio rhai deunyddiau o’r estyniad sydd i’w ddymchwel, fel y canllaw haearn a fydd yn cael ei ail-leoli o fewn y cwrtil fel nodwedd. Ond mae’r bwriad hefyd yn cynnwys elfen o adfer sylweddol o fewn y prif adeilad sydd wedi bod yn dirywio yn sylweddol dros amser. Mae’r bwriad hefyd yn cynnwys gwaith tirlunio a gwaith i’r safle ehangach ond y bydd y rhain yn ffurfio rhan o’r cais cynllunio llawn.

1.11 Saif y safle o fewn Dinas Bangor ond tu allan i’r ardal ganolig. Mae safleoedd y Brifysgol ger y safle hwn a thai preswyl cyfagos. Mae’r adeilad yn rhestredig gradd II.

## 2. Polisïau Perthnasol:

2.1 Mae Adran 38(6) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a pharagraff 2.1.2 Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio y dylid penderfynu ceisiadau yn unol â’r Cynllun Datblygu, oni bai bod ystyriaeth faterol cynllunio yn nodi fel arall. Mae ystyriaethau cynllunio yn cynnwys Polisi Cynllunio Cenedlaethol, a’r Cynllun Datblygu Lleol.

2.2 Mae’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i ymgymryd â chamau rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r 7 amcan llesiant sydd o fewn y Ddeddf. Mae'r adroddiad hwn wedi’i baratoi gan ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu gynaliadwy', fel sydd wedi’i ddatgan yn Neddf 2015. Wrth ffurfio'r argymhelliad mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

2.3 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn 2011-2026 mabwysiadwyd 31 Gorffennaf 2017**

PS20 Diogelu a ble’n briodol gwella asedau treftadaeth

2.4 **Polisïau Cenedlaethol:**

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040

Polisi Cynllunio Cymru (Rhifyn 12 - Chwefror 2024)

Nodyn Cyngor Technegol (NCT)

NCT24: Yr Amgylchedd Hanesyddol.

Rheoli Newid i Adeiladau Rhestredig yng Nghymru

**3. Hanes Cynllunio Perthnasol:**

3.1 C98A/0007/11/CR defnyddio'r adeilad i bwrpas addysg, dau estyniad, grisiau tân, maes parcio ychwanegol a dymchwel rhai waliau mewnol- Caniatáu 20/02/1998

C98A/0017/11/LL defnyddio adeilad i bwrpas addysg, dau estyniad, grisiau tân, maes parcio ychwanegol a dymchwel rhai waliau mewnol– Caniatáu 14/02/1998

C99A/0035/11/CR sefydlu dwy uned aer a gwaith dwythell gysylltiol- Caniatáu 19/03/1999

C99A/0301/11/CR I) lleihau maint dwy uned aer y rhoddwyd caniatâd adeilad rhestredig ar eu cyfer dan gyfeirnod C99A/0035/11/CR II) darparu uned aer ychwanegol III) darparu louvres yn y ddormer bresennol IV) dymchwel corn simnai a'i ail adeiladu ar yr un ffurf er mwyn cynnwys ffliw awyru V) darparu canllaw ar hyd y ffordd dianc rhag tân ar y llawr cyntaf – Caniatáu 21/08/1999

C99A/0560/11/HY Arwydd – Caniatáu 05/01/2000

C99A/0556/11/CR parhau i ddefnyddio'r adeilad i bwrpas addysgol: newidiadau mewnol ac allanol; lwferau mewn dormeri presennol, delltau awyru a drysau (rhan 2) – Caniatáu 06/01/2000

C99A/0557/11/LL parhau i ddefnyddio'r adeilad i bwrpas addysgol; newidiadau mewnol ac allanol; lwferau mewn dormeri presennol, delltau awyru a drysau (rhan 2) – Caniatáu 01/12/1999

C99A/0660/11/HY arwyddion (cais adolygol) – Caniatáu 14/02/2000

C00A/0091/11/LL lleoli adeilad dros dro am 6 mis – Caniatáu 29/03/2000

C00A/0621/11/CR newid amod ar ganiatâd rhif C99A/0301/11/CR er mwyn caniatáu newid lliw'r unedau awyru - Caniatáu 19/01/2001

C06A/0481/11/CR newidiadau allanol i'r to – Caniatáu 07/09/2006

C09A/0483/11/LL gosod portacabin dros dro ar gefn yr adeilad a chreu agoriad i'w gysylltu â'r adeilad presennol - Caniatáu 03/11/2009

C09A/0466/11/CR gosod portacabin dros dro ar gefn yr adeilad a chreu agoriad i'w gysylltu â'r adeilad presennol - Caniatáu 11/01/2010

C09A/0612/11/CR gosod lifft llwyfan mewnol (i gario nwyddau) – Caniatáu 29/01/2010

C12/1275/11/CR Adeiladu canopi dros lecyn parcio ar ochr adeilad. – Caniatáu 12/12/2012

## 4. Ymgynghoriadau:

Cyngor Cymuned/Tref: Heb eu derbyn

Cyngor Archeolegol Prydeinig: Heb eu derbyn

Cymdeithas Henebion Hynafol: Heb eu derbyn

Cymdeithas yr ugeinfed ganrif: Heb eu derbyn

Y Grŵp Sioraidd: Heb eu derbyn

Cymdeithas Diogelu Adeiladau Hynafol: Heb eu derbyn

Y Gymdeithas Fictoraidd: Mae'r Gymdeithas Fictoraidd yn codi pryderon ynglŷn â'r cais ar gyfer Coleg Menai (hen Ysgol Friars), Bangor (C25/0706/11/CR). Mae'r hen Ysgol Friars yn adeilad rhestredig Gradd II, sy'n golygu ei fod yn cael ei gydnabod am ei arwyddocâd cenedlaethol a'i ddiddordeb arbennig. Mae'r ysgol wedi'i diffinio gan ei phensaernïaeth Adfywiad Tuduraidd gydlynol ac mae'n enghraifft dda o ysgol Fictoraidd, yn dilyn ailgynllunio adeiladau'r ysgol gan y Wladwriaeth ar ôl Deddf Addysg Ganolradd Cymru 1889. Dyluniwyd yr adeilad ym 1899 gan Douglas a Minshull ac fe'i hagorwyd yn swyddogol yn 1900.

Mae'r cais hwn ar gyfer dymchwel ac ailddatblygu yng nghefn yr adeilad, a fydd yn arwain at golli deunydd sy'n deillio o'r ugeinfed ganrif yn barhaol. Rydym yn tynnu sylw at y ffaith bod yr hyn sy'n ymddangos yn gampfa (na ddylid ei drysu gyda'r neuadd ymgynnull ddiweddarach o'r ugeinfed ganrif), o bosib yn dyddio o tua 1910, ymhlith yr adeiladau sydd i'w colli; mae'r estyniad hwn yn agwedd hanfodol ar arwyddocâd yr adeilad, ond hefyd yn fwriadol gydlynol â

phensaernïaeth Adfywiad Tuduraidd strwythur blaen yr adeilad.

Mae defnyddiau, pensaernïaeth a chymeriad yr estyniad oll yn awgrymu ei fod wedi'i ddylunio i fod yn weithredol gydlynol ac yn gydymdeimladol â'r prif adeilad o 1900 ac mae'n ymddangos ei fod yn agosach at yr adeilad hwn o ran oed nag at yr estyniadau diweddarach o'r ugeinfed ganrif. Ymddengys bod yr estyniad hwn wedi'i gofnodi gyntaf ar fap adolygu'r OS o Sir Gaernarfon yn 1913 (Sir Gaernarfon VI.12 Diwygiedig: 1913, Cyhoeddwyd: 1914): https://maps.nls.uk/view/135191851#zoom=2.0&lat=6285&lon=8694&layers=BT

Rydym yn codi pryderon nad yw'n ymddangos bod y cais wedi asesu'r estyniad hwn yn ddigonol ac efallai ei fod wedi camddeall tarddiad y gampfa. Rydym yn argymell ailasesu'r agwedd benodol hon ar yr adeilad, gydag arwyddocâd ei deunydd hanesyddol a'i pherthynas â blaen y prif adeilad yn cael eu hailystyried.

Mae colli'r estyniadau o ganol yr ugeinfed ganrif y tu allan i gylch gorchwyl y Gymdeithas, felly rydym yn hapus i ildio i farn Cymdeithas yr Ugeinfed Ganrif a'ch Swyddogion Cadwraeth eich hun ar hyn.

Yn olaf, rydym am gyfeirio at bwysigrwydd ymgynghori â'r Cymdeithasau Amwynder Cenedlaethol ar geisiadau sy'n cynnwys dymchwel adeiladau rhestredig yn llawn neu'n rhannol. Y ffordd hawsaf o wneud hyn yw hysbysu Cyd-bwyllgor y Cymdeithasau Amwynder Cenedlaethol drwy e-bost: casework@jcnas.org.uk. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae'r Gymdeithas Fictoraidd yn gweithio, a phryd i ymgynghori â ni, gweler ein tudalennau 'Amdanom Ni' ar ein gwefan: https://www.victoriansociety.org.uk/about-us/how-we-work/

Uwch Swyddog Cadwraeth: Heb ymgynghori - Yr Uned Cadwraeth sydd wedi delio gyda’r cais yma, ac felly mae barn broffesiynol yr Uned Cadwraeth wedi ei chynnwys yn yr adroddiad ac nid yw felly yn cael ei hadrodd ar wahân.

Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru: Diolch am ymgynghori â ni ar y cynlluniau ar gyfer Coleg Menai ym Mangor, rhif cais C25/0706/11/CR. Mae cylch gorchwyl y Comisiwn Brenhinol yn caniatáu i ni roi sylwadau ar arwyddocâd hanesyddol yr adeilad ac ar ddigonolrwydd y cofnod neu fel arall, yn unig.

Mae adeilad presennol Friars Coleg Menai yn dyddio o 1899 (agorwyd yn 1900) ac fe'i hadeiladwyd gan Douglas a Minshull, penseiri o Gaer, a oedd yn enillwyr cystadleuaeth ddylunio. Mae'r adeilad wedi'i adeiladu yn yr arddull Tuduraidd mewn rwbel maen llanw gyda cherrig nadd, gan gynnwys llin-gwrs, band bargod a pharapetau talcen gyda therfyniadau, a tho llechi. Mae'r prif flaen deulawr yn anghymesur gyda thŵr canolog sy'n ymestyn gyda tho pyramidaidd, a thŷ prifathro ynghlwm i'r dde. Yn cael ei adnabod fel Ysgol Friars, mae'r adeilad yn ymddangos gyntaf ar Ail Argraffiad o fap OS 25-modfedd (1900).

| | |
| --- | --- |
| | Mae'r cynigion yn ymwneud â'r estyniad o'r 1940au i'r cefn, sy'n ddeulawr o uchder, mewn cynllun siâp croes, ac mae wedi atgynhyrchu manylion Tuduraidd yr adeilad gwreiddiol i raddau er nad yw'r holl estyniad wedi derbyn y driniaeth hon. Serch hynny, mae'n darparu enghraifft o sut yr ymatebodd y penseiri i adeilad gwreiddiol ac ni ddylid ei ddiystyried yn gyfan gwbl o ran unrhyw werth treftadaeth. Rydym yn croesawu'r asesiad effaith treftadaeth a gyflwynwyd fel rhan o'r cais yn ogystal â lluniadau cynlluniau ac edrychiadau. Fodd bynnag, byddem yn argymell hefyd fel amod caniatâd, bod mesurau lliniaru pellach yn cael eu gweithredu ar ffurf cofnod ffotograffig Lefel 2 yn unol â'r meini prawf a amlinellir ar dudalen 26 o Understanding Historic Buildings: A Guide to Good Recording Practice (2016) gan Historic England. Ni ddylid ymgorffori'r cofnod ffotograffig mewn PDF ond yn hytrach ei allforio'n unigol fel ffeiliau TIFF gyda 300dpi, gyda chopïau o'r arolwg dilynol i'w cadw gyda Chofnod Henebion Cenedlaethol Cymru yn Aberystwyth. |
| HENEB: | Cynnig amodau archeolegol safonol. |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus: | Rhoddwyd rhybudd ar y safle, yn y wasg a gwybyddwyd trigolion cyfagos. Mae’r cyfnod hysbysebu wedi dod i ben a derbyniwyd gohebiaeth yn datgan sylw ar sail:<br>• Cefnogi parhau i ddefnyddio’r adeilad ar bwrpas addysg<br>• Mae’r datganiad treftadaeth yn wael<br>• Ail-ddefnyddio deunydd adeiladu<br>• Nid dim ond blaen yr adeilad sydd yn rhestredig |

**5. Asesiad o’r ystyriaethau cynllunio perthnasol:**

**Effaith y datblygiad ar osodiad a chymeriad yr Adeilad Rhestredig**

5.1 Dywed Paragraff 5.13 o Nodyn Cyngor Technegol (NCT) 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol ystyried y materion canlynol:

- Pwysigrwydd a gradd yr adeilad a’i ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol cynhenid
- Nodweddion ffisegol yr adeilad sy’n cyfiawnhau ei restru ac yn cyfrannu at ei arwyddocâd, gan gynnwys unrhyw nodweddion pwysig, megis y tu mewn i'r adeilad, a all fod wedi dod i’r amlwg ar ôl i’r adeilad gael ei gynnwys ar y rhestr
- Cyfraniad cwrtil a lleoliad yr adeilad at ei arwyddocâd, yn ogystal â chyfraniad yr adeilad at yr olygfa leol
- Effeithiau’r gwaith arfaethedig ar arwyddocâd yr adeilad

- I ba raddau y byddai'r gwaith yn dod â manteision cymunedol sylweddol, er enghraifft drwy gyfrannu at economi'r ardal neu at wella ei hamgylchedd lleol

5.2 Mae'r cais yn ymwneud â gwaith i ddymchwel estyniadau cefn a chodi estyniad deulawr newydd ynghyd ag addasiadau mewnol i'r prif adeilad. Mae'r adeilad, sef cyn ysgol yn un trawiadol iawn deulawr ar ochr Ffordd Ffriddoedd gyda sawl adeilad cysylltiedig yn y cefn, llecynnau parcio a chyn gae ysgol gwyrdd sylweddol. Nid yw'r adeiladau ar wahân na'r cae yn destun unrhyw newid gyda'r cais hwn. Mae materion parcio a thirlunio yn ffurfio rhan o'r cais cynllunio cysylltiedig.

5.3 Fel y nodir uchod, mae'r prif adeilad, sef yr adeilad sydd yn weladwy o'r ffordd yn un trawiadol iawn allan o garreg gyda ffenestri carreg ac wedi ei adeiladu oddeutu 1899 a'i agor yn 1900. Mae ychydig o amheuaeth dros oed y rhannau cefn, sef y darn sydd i'w ddymchwel ac mae hyn wedi codi o fewn gohebiaeth ar y cais. Oherwydd hyn mae mwy o wybodaeth wedi ei chomisiynu a'i chyflwyno er mwyn asesu mwy o'r rhannau cefn, eu hoedran a phwysigrwydd. O adroddiad "Heneb Gwynedd Archaeology Report 1840" mae tystiolaeth wedi dangos o fewn hen fapiau o'r ardal o 1911 fod y rhan de-orllewin (sef yr adeilad a adnabyddir fel yr hen gampfa) ar ganol ei hadeiladu ac yn adeilad ar wahân i'r prif adeilad blaen a welir heddiw. Erbyn i'r map 1914 gael ei gyhoeddi, roedd y gampfa wedi cwblhau gyda tho. Mae cynlluniau mewnol o'r ysgol yn 1935 yn dangos yr adeilad hwn mewn defnydd fel campfa gydag adeilad toiledau wedi ychwanegu i'r gogledd ond mae dal yn adeilad ar wahân. Mae lluniau awyr o 1945 yn dangos fod yr adeilad hwn wedi cynnwys a'i ychwanegu i gefn y prif adeilad erbyn hyn, gyda ail-lawr wedi codi a'r neuadd bresennol. Mae'n ymddangos felly bod y rhan cefn hon yn eithaf cyfoes efo'r prif adeilad, ac mae'r cefn wedi datblygu dros y blynyddoedd.

5.4 Fodd bynnag, oherwydd diffyg sylweddol o ran gwaith cynnal a chadw dros amser, mae'r rhan hon erbyn hyn mewn cyflwr gwael ac nid yw maint a gofod yr ystafelloedd yn addas i ofynion y Brifysgol fel neuadd ddarlithio. Mae cofnod helaeth wedi ei wneud o'r adeilad, ac mae'r rhannau cefn yn bwysig o ran datblygiad a hanes y safle, ond nid yw yn bosib trosi'r rhain i'r defnydd darlithio sydd angen ac ystyrir y byddai eu dymchwel yn parhau dyfodol hir dymor y safle. Fel cyfaddawd, mae trafodaethau eisoes wedi cymryd lle o ran ail-ddefnyddio'r deunyddiau o'r rhan sydd i'w ddymchwel, ond hefyd teimlir y byddai cadw hoel siâp y gampfa ar y llawr o fewn yr estyniad newydd yn ystyriaeth i gadw'r dystiolaeth o'r lleoliad, drwy osod rhan lliw gwahanol o fewn triniaeth y llawr ond hefyd lluniau ar y waliau. Teimlir y byddai'n addas i amodi hyn fel rhan o'r caniatâd.

5.5 O ran yr addasiadau mewnol, teimlir fod llawer o'r gwaith yn dderbyniol drwy dynnu gwaith anaddas fel y nenfydau ffug a hefyd triniaeth i'r ffenestri blaen sydd yn rhai cerrig trawiadol sydd i'w adfer. Mae peth newidiadau wedi digwydd i rai o'r ffenestri blaen dros amser, ond mae tystiolaeth yn bodoli yn dangos dyluniad hanesyddol y ffenestri a bwriedir defnyddio'r rhain i'w adfer. Bwriedir ail-ddefnyddio rhai drysau o'r rhan cefn o fewn yr agoriad newydd wrth gefn y tŷ prifathro sydd i'w groesawu, ond hefyd gyda'r llawr "parquet" o'r neuadd cefn, ac eto teimlir y byddai gosod amod i gytuno ail-ddefnyddio'r nodweddion yma yn addas yn yr achos yma.

5.6 Byddai'r estyniad newydd yn gymysg o bric llwyd golau / coch a chladin alwminiwm a zinc coch. Ar yr ochr orllewinol o'r prif adeilad, bwriedir tynnu'r porth ceir presennol ynghyd a thynnu offer peirianyddol awyru oddi ar y to a gosod fentiau newydd. Byddai'r estyniad newydd yn cysylltu â'r prif adeilad ac yn bennaf mewn siâp sgwâr ac yn mesur 26m wrth 28m gydag uchder o 12.5m, ac y bydd o ddyluniad modern efo dau do brig a fyddai'n adlewyrchu'r to brig o'r prif adeilad a byddai'r rhan isod allan o fric goch a chladin zinc coch ar y lefel uwch. Bydd

paenau gwydr hyd at lefel uchel yn cysylltu’r estyniad a’r prif adeilad, a dau baen gwydr hir ar ganol a phen yr estyniad.

5.7 Ar yr edrychiad cefn (gogleddol) y bydd rhan helaeth o’r prif adeilad dal yn weladwy ynghyd a’r darn modern newydd. Byddai’r rhan yma o’r estyniad eto o ddeunyddiau yn gyfuniad o fric goch a chladin alwminiwm coch. Fel yr uchod, bydd rhannau o’r to yn fflat (er mwyn lleoli’r offer awyru a mecanwaith) ac y byddai rhannau eraill yn grib. Bwriedir cael paenau gwydr ar hyd hanner yr edrychiad cefn ar lefel isel, gyda 5 ar y llawr cyntaf a 3 ffenestr o fewn y to. Byddai nwyddau dŵr glaw wedi gweithredu o fewn y dyluniad i’w orchuddio ond efo sawl peipen dŵr glaw yn rhedeg lawr y cefn.

5.8 Ar yr ochr ddwyreiniol (yn gwynebu Neuadd Reichel) y byddai’r estyniad eto yn adlewyrchu’r prif adeilad efo rhannau to brig ond hefyd bwriedir gosod esgyll (fins) a fydd yn adlewyrchu’r to brig ond fydd yn gorchuddio’r offer mecanwaith unwaith eto. Bwriedir gosod paneli solar ar yr estyniad newydd ond fydd wedi lleoli mewn mannau cuddiedig, ond teimlir y byddai’n rhesymol gosod amod i gytuno ar yr union fath o baneli a’r lliw o flaen llaw.

5.9 Ystyrir fod yr estyniad hwn yn un modern ac yn sefyll allan yn wahanol o’r prif adeilad, ond mae’r dyluniad yn defnyddio’r nodweddion presennol oddi ar y prif adeilad o ran deunyddiau a lliw yn bennaf, ond hefyd o ran siâp brig yr ochrau sydd yn creu “parapet” i alluogi gorchuddio’r to fflat. Ni ystyrir y byddai’r estyniad yn tynnu oddi ar edrychiad na phwysigrwydd y prif adeilad ond yn hytrach yn dangos esblygiad yr adeilad dros amser, fel sydd wedi digwydd efo’r estyniadau cefn sydd i’w dymchwel.

5.10 Mae’r cynllun o’r edrychiad blaen yn dangos rhannau o’r estyniad newydd yn weladwy. Wedi derbyn gwybodaeth ychwanegol yn edrych i mewn i hyn, a hefyd o ystyried natur y tir sydd yn codi oddi ar y brif ffordd, ni ystyrir y dylai’r estyniad fod yn weladwy o’r blaen. Mae’n anorfod y byddai’n weladwy o’r ochr ble mae’r caeau chwarae ac ystyrir y byddai hyn yn dderbyniol o ran gweld yr adeilad yn ei chyfanrwydd, ond mae angen esboniad dros y cynlluniau perthnasol.

5.11 Ystyrir y byddai’r bwriad yn ychwanegiad modern sylweddol, ond hefyd mae’n rhaid ystyried dyfodol yr eiddo wrth sefyll yn wag ac yn dirywio. Mi fydd y golled o’r estyniadau cefn yn golled o ffabrig hanesyddol, ond mae hyn wedi esbonio a’i gyfiawnhau o fewn y cais o ran cael defnydd tymor hir i’r adeilad unwaith eto, ac y byddai’r cofnod hanesyddol sydd eisoes wedi’i wneud a hefyd amod i ail-ddefnyddio’r deunyddiau yn cadw rhan o’r estyniad hwn. Ystyrir fod y bwriad yn ddyluniad o ansawdd uchel ond hefyd yn sensitif i’r adeilad rhestredig drwy adfer y prif adeilad, ac o ran y gwaith addasu mewnol drwy wneud y lleiafswm er parchu’r gosodiad gwreiddiol. Ystyrir wrth gadw’r estyniad modern newydd i’r cefn y prif adeilad ar y blaen fydd yn parhau fel y prif ffocws. Ystyrir felly fod y bwriad yn cwrdd â gofynion polisi PS 20 o’r CDLl ynghyd â chanllawiau cadwraethol ac yn dderbyniol i'w ganiatáu yn unol â’r amodau a nodir isod.

**6. Casgliadau:**

6.1 Yn unol â'r asesiad uchod, ystyrir fod y bwriad wedi ei gyfiawnhau yn llawn a hefyd yn parchu'r adeilad drwy gadw'r estyniad modern i’r cefn ac wrth gadw’r gwaith mewnol addasu i’r lleiaf, ond hefyd i gadw ac ail-ddefnyddio nodweddion o fewn yr adeilad. Yr Uwch Swyddog Cadwraeth sydd wedi asesu a pharatoi’r adroddiad i’r cais yma, ac mae hawliau dirprwyedig gan Cadw yn bodoli ar gyfer hyn, ac felly nid oes angen cyfeirio’r cais i Cadw pe byddai’r cais yn cael ei gymeradwyo.

**7. Argymhelliad:**

7.1 Caniatáu'r cais yn ddarostyngedig i'r amodau canlynol :

1. 5 mlynedd
2. Unol â'r cynlluniau.
3. Amodau heneb
4. Manylion gwydriad eilradd i'w cytuno o flaen llaw.
5. Cytuno i ail-ddefnyddio deunyddiau o'r adeilad i'w ddymchwel
6. Nwyddau dŵr glaw alwminiwm
7. Manylion manwl y paneli solar
8. Manylion unrhyw oleuadau i'w cytuno
9. Manylion unrhyw arwyddion i'w cytuno
10. Rhaid cyflwyno manylion i sgrin wrth y grisiau cyn eu gosod
11. Rhaid cyflwyno manylion o sut i gofnodi hoel y gampfa cyn eu dymchwel
12. Cyflwyno samples o'r deunyddiau
13. Defnyddio calch gydag unrhyw waith pwyntio / render